ASIANTAETH FFILM CYMRU

Canllawiau Datblygu

Ionawr 2007

Canllawiau Datblygu'r Asiantaeth Ffilm

Nodau & Amcanion
Bwriad yr Asiantaeth yw adnabod a meithrin gwneuthurwyr ffilm o Gymru - yn enwedig awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr - drwy gefnogi ac annog datblygiad eu gwaith a'u huchelgais.

Mae'r Asiantaeth yn cynnig:

- Cefnogaeth, cyngor ac arian datblygu i brosiect penodol;
- Cymorth i wella proffil talent gydag arianwyr trydydd parti, dosbarthwyr, comisiynwyr a chysylltiadau eraill yn y diwydiant;
- Cyngor a gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi yn y diwydiant, gan hyrwyddo mynediad atynt ble fo hynny'n bosib;
- Adnabod anghenion hyfforddi penodol, yn cyd-weithio â sefydliadau i ateb yr anghenion hynny, ac i ddyfeisio a gweithredu cyfleoedd hyfforddi sydd wedi'u teilwra'n arbennig, ble fo angen.

Mae'r Asiantaeth yn cefnogi tua 20 o brosiectau datblygu ar yr un pryd, gyda llechen amrywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o genres a chyllidebau. Am wybodaeth bellach am y blaenoriaethau ariannu edrychwch ar strategaeth ddatblygu'r Asiantaeth.

Arian Datblygu Prosiect Penodol

Cymhwyster

Bydd ceisiadau am gyllid yn cael eu derbyn ar unrhyw amser ac ar unrhyw adeg o ddatblygiad y prosiect. Derbynnir ceisiadau gan unigolion (ar gyfer costau datblygu sgript) neu gan gynhyrchydd neu gan gwmni cynhyrchu. Gall cynhyrchwyr a chwmnïau cynhyrchu wneud cais am gyllid ar gyfer amrediad eang o weithgaredd datblygu, gan gynnwys ail-ysgrifennu sgriptiau, amserlennu, cyllido, castio, mynd i ymweld â lleoliadau, a chostau sydd ynghlwm â chodi diddordeb arianwyr, gwerthiant a dosbarthu.

Mae'r Asiantaeth yn annog cyfraniad arianwyr trydydd parti fel rhan o'r cynigion datblygu, yn enwedig pan fydd hyn yn dangos galw yn y farchnad. Fodd bynnag, bydd yr Asiantaeth hefyd yn ystyried ariannu 100% o gostau arian parod y datblygiad ar sail cyfraniadau 'mewn nwyddau' fydd yn cael eu gwneud gan yr ymgeisydd a/neu gan ei bartneriaid drwy gyd-gyllido. Nid yw'n bosib digolledu cyfraniadau 'mewn

nwyddau' fel hyn ac efallai bydd y rhain ar ffurf ffioedd is, a/neu gyfraniadau tuag at gyfleusterau ac adnoddau.

Yn ystod y cyfnod datblygu gallwn gynnig arian datblygu pellach ar gyfer gweithdai a/neu ar gyfer saethu golygfeydd prawf ble fo hynny'n berthnasol ac yn fanteisiol. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd i'r prosiectau hynny sydd eisoes yn derbyn arian datblygu gan yr Asiantaeth.

Criteria Dewis
Wrth ddewis prosiectau byddwn yn ystyried y criteria canlynol:

- ansawdd, potensial a gwreiddioldeb y gwaith;
- y budd i wneuthurwyr ffilm o Gymru;
- ymarferoldeb y prosiect yn nhermau cyllid a photensial y farchnad;
- cymhwyster y prosiect i gael ei hadnabod fel ffilm Brydeinig, yn dilyn termau'r Ddeddf Ffilm 1985 (Diwygiedig 1999). (Edrychwch ar wefan DCMS am fanylion pellach : www.culture.gov.uk).
- amrediad a nifer y prosiectau sydd eisoes yn cael eu cefnogi gan yr Asiantaeth

Yn ychwanegol i'r uchod mae'n rhaid i'r Asiantaeth ddilyn cyfarwyddiadau ar gyfer asesu ceisiadau sydd wedi eu gosod gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiedig 1998). Gweler Atodiad 1.

Trefn Gwneud Cais
Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau a chyflwyno ffurflen gais. Gellir llawr lwytho hon o'r wefan a'i chyflwyno fel copi caled, neu gallwch gysylltu â'r Asiantaeth er mwyn i ni yrru copi caled atoch chi.

Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r Asiantaeth yn bwriadu rhoi ymateb cyntaf o fewn 4 wythnos i dderbyn y cais.

Penderfyniadau Ariannu
Bydd penderfyniadau ariannu hyd at £25,000 yn cael eu gwneud gan y Prif Weithredwr, y Pennaeth Talent a'r Swyddog Datblygu Talent.

Bydd penderfyniadau ar geisiadau ariannol rhwng £25,000 a £50,000 yn cael eu gwneud gan yr uchod a gan Gadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth.

Bydd penderfyniadau ariannol ar fwy na £50,000 yn rhwym i gymeradwyaeth y Bwrdd.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau drwy lythyr.

Pan na fydd prosiect yn llwyddiannus byddwn yn darparu esboniad byr.

Byddwn yn gyrru llythyr o gynnig i geisiadau llwyddiannus fydd yn manylu ar ofynion penodol yr ariannu. Yn ychwanegol at hyn, bydd prosiectau llwyddiannus yn dibynnu ar dermau ariannu arferol yr Asiantaeth.

Dyfarniadau ac Amodau
Mae'r cynnig o gyllid yn parhau ar agor am gyfnod penodol, a bydd manylion am hyn yn y llythyr o gynnig. Os na fydd defnydd o'r arian yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, efallai y byddwn yn tynnu'r cynnig yn ôl.

Mae prosiectau sydd yn derbyn nawdd yn dibynnu ar gytundeb datblygu sy'n cynnwys cynllun ariannu a gytunwyd arno, ac ar dargedau datblygu penodol.

Bydd buddsoddiad yr Asiantaeth yn cael ei ad-dalu pan fydd y prosiect yn mynd i gynhyrchu, a daw yn ad-daladwy ar ddiwrnod cyntaf prif ffotograffiaeth. Mae premiwm o 50% fel arfer yn ofynnol ar y cyllid datblygu.

Bydd yn rhaid i'r Asiantaeth gymeradwyo bob trefniant cyllid ac unrhyw newidiadau allai effeithio ar y prosiect. Efallai y bydd yn tynnu'r nawdd yn ôl, neu yn lleihau'r nawdd, yn sgil newidiadau o'r fath.

Gwybodaeth Gyffredinol
Mae'r Asiantaeth wedi ymrwymo i egwyddor cyfleoedd cyfartal. Darllenwch ddogfennau polisi strategaeth yr Asiantaeth am ragor o wybodaeth.

Manylion Cyswllt
Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn gwneud cais, cysylltwch â:

Keith Potter
Pennaeth Talent
Asiantaeth Ffilm Cymru
33-35 Stryd Gorllewin Bute
Caerdydd
CF10 5LH

E-bost: keith@filmagencywales.com <mailto:keith@filmagencywales.com>

Atodiad 1

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (Diwygiedig 1998) yn amlinellu'r criteria allweddol y dylid eu hystyried wrth wneud cais am nawdd. Mae'r Asiantaeth yn dehongli'r rhain fel a ganlyn:

Ansawdd Artistig Mae'r Asiantaeth yn ceisio cefnogi gwneud ffilmiau gwreiddiol a dramatig.

Budd Cyhoeddus Gellir llwyddo i wneud hyn drwy amrywio ystod y deunydd sinematig sydd ar gael; rhoi proffil i dalent newydd neu ehangu'r gynrychiolaeth o gymunedau sydd heb gael sylw digonol yn y gorffennol, er enghraifft.

Datblygiadau Newydd Nid oes modd cyfnewid cronfeydd y Loteri. Hynny yw, ni ddylid eu defnyddio yn lle ffynonellau eraill o nawdd sydd ar gael i unrhyw brosiect. Gellir eu defnyddio, fodd bynnag, i godi buddsoddiad ychwanegol i brosiectau. Gellir defnyddio ein nawdd mewn partneriaeth ag arianwyr Loteri eraill, ond yn rhwym i gap cyflawn o 50% o ffynonellau Loteri.

Ymarferoldeb Ariannol Byddwn yn ystyried ymarferoldeb ariannol y prosiect a chydnawsedd yr elfennau ariannol eraill gyda thelerau ariannu'r Loteri. Mae angen i'r ceisiadau gael eu cyllido'n addas ar gyfer cynulleidfa darged y prosiect a'r farchnad derfynol.

Cyllid Partneriaeth Bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o arian datblygu trydydd parti neu lefelau addas o gefnogaeth 'mewn nwyddau'.

Galw Clir Mae'r Asiantaeth yn dymuno cefnogi prosiectau ffilm sydd yn debygol o gael dosbarthiad llwyddiannus.

Rheolaeth Effeithiol Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am wariant arian cyhoeddus, ac felly mae'n rhaid iddo fod yn fodlon fod yr ymgeisydd yn debygol o drosglwyddo o fewn cyllideb, ac ar amser, ac i ddefnyddio'r arian ar gyfer y rhesymau y bwriadwyd iddo.